

# Omnibws y Plant 2018

## Cyfranogiad mewn y celfyddydau unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

---

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®


Gweithdy Ysgol Gynradd Romilly, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru (llun: Kirsten Mcternan)


## Cynnwys



Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Cerddorol ........ 3
Cyfranogiad mewn Drama neu weithgareddau theatrig ........ 7
Cyfranogiad mewn Dawns ........ 10
Cyfranogiad mewn gweithgareddau Gwneud Ffilm a Fideo neu Ffotograffiaeth ........ 13
Cyfranogiad mewn Celfyddydau a Chrefftau Gweledol ........ 16
Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Celfyddydau Digidol ........ 19
Cyfranogiad mewn gweithgareddau Ysgrifennu Creadigol ........ 22
Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol ........ 25
Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2018 ........ 26


## Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Cerddorol

- Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Gweithgareddau Cerddorol wedi gostwng 5.2 pwynt canran ers 2017, i 45.7%.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn Gweithgareddau Cerddorol ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 2.7 pwynt canran i 53.5%, a chyfranogiad y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 7.4 pwynt canran i 39.5%. Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu 9.3 pwynt canran yn 2017 i 14 pwynt canran yn 2018.
- Mae cyfranogiad gwrywod a benywod mewn Gweithgareddau Cerddorol unwaith y flwyddyn neu fwy wedi gostwng. Mae cyfranogiad gwrywod wedi gostwng 4.6 pwynt canran ers 2017 i 42.4% ac mae cyfranogiad benywod wedi cynyddu 5.8 pwynt canran i 49.2%.














Gwelwyd gostyngiad mewn cyfraddau cyfranogiad ym mhob rhanbarth ers 2017. Rhanbarth y De-orllewin a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc a gyfranogodd mewn Gweithgareddau Cerddorol unwaith y flwyddyn neu fwy sef 49.6%. Y canrannau cyfatebol i Ganolbarth y De yw 46.9%, i'r De-ddwyrain 42.7% ac i'r Gogledd 41.2%. Rhanbarth Canolbarth y De a welodd y gostyngiad mwyaf ers 2017 o 10.7 pwynt canran.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Gweithgareddau Cerddorol ymysg siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 0.5 pwynt canran ers 2017 i 53.3%. Mae cyfranogiad y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 8.7 pwynt canran ers 2017 i – y ganran isaf ers 2012. Mae'r gwahaniaeth canrannol rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 3 phwynt canran yn 2017 i 12.2 pwynt canran yn 2018.







Yn 2018, cafwyd gostyngiad yng nghyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Gweithgareddau Cerddorol unwaith y flwyddyn neu fwy. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn y grŵp 7-10 oed, sef 7.2 pwynt canran i 65.7%, 3.0 pwynt canran o ostyngiad i 44.4% yn y grŵp 11-15 oed a 6.5 pwynt canran o ostyngiad i 25.6% yn y grŵp 7-10 oed.


Mae canran y plant a phobl ifanc a gyfranogodd mewn Gweithgareddau Cerddorol yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi gostwng 11.4 pwynt canran ers 2017 i 29.5%.


Ar y llaw arall cynyddodd canran y plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau cerddorol a drefnwyd gan ysgol/coleg 10 pwynt canran ers 2017 i 64.6%.





## Cyfranogiad mewn Drama neu weithgareddau theatrig

- Yn 2018 mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Drama wedi cynyddu 0.6 pwynt canran i 35.8% ers 2017, gyda mwy na thraean yn cymryd rhan unwaith y flwyddyn neu fwy.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn Drama ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 5.6 pwynt canran i 43.3%, ac mae cyfranogiad y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 3.4 pwynt canran i 29.8%. Mae'r gwahaniaeth yn y canrannau rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 4.5 pwynt canran yn 2017 i 13.5 pwynt canran yn 2018.
- Mae cyfranogiad gwrywod mewn Drama unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu 3.8 pwynt canran i 32.2% ers 2017, ond mae cyfranogiad benywod wedi gostwng 2.5 pwynt canran i 39.6%. Mae'r bwlch rhwng y ddau wedi gostwng o 13.7 pwynt canran yn 2017 i 7.4 pwynt canran yn 2018.














Rhanbarth y De-ddwyrain a welodd y cynnydd mwyaf o ran cyfranogiad mewn Drama neu weithgareddau theatr sef 8.1 pwynt canran ers 2017 i 36.7%. Gwelwyd y lefelau cyfranogiad uchaf ymysg plant a phobl ifanc sy'n byw yn rhanbarth Canolbarth y De lle cymerodd 37.4% ran unwaith y flwyddyn neu fwy. Yn y De-orllewin gwelwyd 5.5 pwynt canran o gynnydd ers 2017 i 35.8% ac yn y Gogledd gwelwyd 8.4 pwynt canran o ostyngiad ers 2017 i 32.7%.


Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn Drama ymysg siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu 2.3 pwynt canran ers 2017 i 42%. Mae'r ganran ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 0.7 pwynt canran ers 2017 i 31.7%.







Mae canran y plant 7-10 oed sy'n cyfranogi mewn Dramâu neu weithgareddau theatr unwaith y flwyddyn neu fwy wedi cynyddu 3.2 pwynt canran ers 2017 i 49.8%. Ceir 0.8 pwynt canran o ostyngiad i 39.7% ymysg y rhai 11-15 oed a 0.1 pwynt canran o ostyngiad i 14.5% ymysg y rhai 16-18 oed.


Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 0.5 pwynt canran ers 2017 i 79.3%. Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn drama neu weithgareddau theatr yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi gostwng 3.5 pwynt canran.





## Cyfranogiad mewn Dawns

- Cyfranogodd un ym mhob pump o blant a phobl ifanc mewn Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae cyfranogiad mewn Dawns wedi gostwng 1.4 pwynt canran ers 2017 i 20.8%.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn Dawns ymysg blant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 0.9 pwynt canran i 23% ac mae cyfranogiad y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 3.2 pwynt canran i 19.1%. Mae'r gwahaniaeth mewn canrannau rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o 0.2 pwynt canran yn 2017, pan oedd lefelau cyfranogiad plant a phobl ifanc o aelwydydd CD2E yn uwch, i 3.9 pwynt canran yn 2018.
- Cyfranogodd un ym mhob deg o wrywod mewn Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae cyfranogiad gwrywod wedi gostwng 2.8 pwynt canran i 9.8% ers 2017, ac mae cyfranogiad benywod wedi cynyddu 0.4 pwynt canran i 32. 6%.














Cymerodd un ym mhob pump o blant a phobl ifanc yn rhanbarth y De-ddwyrain ran mewn Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy. Y De-ddwyrain a welodd y ganran uchaf a'r unig gynnydd yn rhanbarthol sef 3.7 pwynt canran ers 2017 i 22.9%. Cafwyd y cynnydd mwyaf ond un yn rhanbarth Canolbarth y De (21.9%), mwyaf ond dau yn y De-orllewin (20.3%) a'r mwyaf ond tri yn y Gogledd (18.3%). Cafwyd y gostyngiad mwyaf ers 2017 yn rhanbarth Canolbarth y De, sef 6.1 pwynt canran.


Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mewn Gweithgareddau Dawns wedi gostwng 0.2 pwynt canran ers 2017 i 24.8% – y ganran isaf ers 2013. Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 2.1 pwynt canran ers 2017 i 18.5%.







Yn 2018, gwelwyd y cyfraddau cyfranogiad uchaf mewn Dawns unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc 7-10 oed, gyda 0.3 pwynt canran o gynnydd ers 2017. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymysg y rhai 16-18 oed sef 3.1 pwynt canran i 7.6% ac ymysg y rhai 11-15 oed sef 1.5 pwynt canran i 17.8%.


Cyfranogodd mwy na hanner (53.6%) y plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau Dawns yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg). Mae canran y plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau dawns a drefnwyd gan ysgol/coleg wedi gostwng 9.8 pwynt canran i 38.4%.





## Cyfranogiad mewn gweithgareddau Gwneud Ffilm a Fideo neu Ffotograffiaeth

- Yn 2018, mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau Gwneud Ffilm a Fideo neu Ffotograffiaeth wedi gostwng 2.8 pwynt canran ers 2017 i 35.5%.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn gweithgareddau Gwneud Ffilm a Fideo neu Ffotograffiaeth ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 4.6 pwynt canran i 39.7%, ac mae cyfranogiad gan y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 1.6 pwynt canran i 32.1%. Mae'r gwahaniaeth mewn canrannau rhwng y ddau grŵp wedi gostwng o 10.6 pwynt canran yn 2017 i 7.6 pwynt canran yn 2018.
- Cyfranogodd mwy o wrywod nag o fenywod mewn gweithgareddau Gwneud Ffilm a Fideo neu Ffotograffiaeth yn 2018. Cyfranogodd 36% o wrywod unwaith y flwyddyn neu fwy a chyfranogodd 34.9% o fenywod unwaith y flwyddyn neu fwy.














Rhanbarth y De-orllewin a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu fwy (38.2%). Y canrannau cyfatebol i'r Gogledd yw 35.7%, i'r De-ddwyrain 35.4% ac i Ganolbarth y De 33.1%. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ers 2017 yn rhanbarth y De-ddwyrain, sef 8.7 pwynt canran i 35.4%.


Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth ymysg siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 3.2 pwynt canran ers 2017 i 38.8%. Mae cyfranogiad y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth wedi gostwng 2.6 pwynt canran ers 2017 i 33.4%.







Mae mwy na thraean o bobl ifanc 16-18 oed yn cyfranogi mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae lefelau cyfranogiad ymysg y rhai 16-18 oed i fyny 4.5 pwynt canran ers 2017 i 33.4%. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf ymysg pobl ifanc 11-15 oed sef 6.6 pwynt canran ers 2017 i 35.2%. Mae cyfraddau cyfranogiad mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth ymysg plant 7-10 oed wedi gostwng 4.4 pwynt canran ers 2017 i 37.7%.


Cyfranogodd 65.7% o blant a phobl ifanc mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg). Cymerodd 24.8% o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau gwneud ffilm a fideo a ffotograffiaeth a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol.





## Cyfranogiad mewn Celfyddydau a Chrefftau Gweledol

- Cymerodd mwy na phump ym mhob wyth o blant a phobl ifanc ran mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae’r ffigur hwn wedi gostwng 1.5 pwynt canran ers 2017 i 64.7%.
- Cyfranogodd mwy o blant a phobl ifanc o aelwydydd C2DE mewn celfyddydau a chrefftau gweledol yn 2018, gydag 1.8 pwynt canran o gynnydd ers 2017 i 65.2%. Mae cyfraddau cyfranogiad ymysg y rhai o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 1 pwynt canran i 64%.
- Yn gyffredinol, mae cyfranogi plant a phobl ifanc mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl rhywedd wedi gostwng. Mae cyfranogiad benywod wedi gostwng 0.7 pwynt canran i 69.3% ers 2017 ac mae cyfranogiad gwrywod wedi gostwng 2.2 pwynt canran i 60.3%.














Y Gogledd a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu fwy (67.6%). Y canrannau cyfatebol i'r De-orllewin yw 66.3%, i Ganolbarth y De 64.8% ac i'r De-ddwyrain 57.8%. Gwelwyd y cynnydd mwyaf ers 2017 sef 4.4 pwynt canran yn rhanbarth y De-ddwyrain.


Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg mewn celfyddydau a chrefftau gweledol wedi gostwng 0.5 pwynt canran ers 2017 i 67.3%. Mae cyfranogiad y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 2.1 pwynt canran ers 2017 i 63.1%.







Yn 2018, gwelwyd y cyfraddau cyfranogiad uchaf mewn celfyddydau a chrefftau gweledol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant 7-10 oed (87.2%). Gwelwyd 2.8 pwynt canran o ostyngiad mewn cyfranogiad ymysg y rhai 11-15 oed i 69.5%, a 0.4 pwynt canran o ostyngiad i 32.6% ymysg y rhai 16-18 oed.


Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn celfyddydau a chrefftau gweledol a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 8.5 pwynt canran i 63.5%. Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau a chrefftau gweledol wedi gostwng 12.5 pwynt canran. Fodd bynnag, mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydau a chrefftau gweledol a drefnwyd gan ysgol/coleg y tu allan i oriau ysgol wedi cynyddu 3.8 pwynt canran.





## Cyfranogiad mewn Gweithgareddau Celfyddydau Digidol

- Cymerodd dau ym mhob pump o blant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu fwy. Mae cyfranogiad mewn celfyddydau digidol wedi gostwng 7.3 pwynt canran ers 2017 i 41.5%.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydol digidol ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi gostwng 4.9 pwynt canran i 45.4% ac mae cyfranogiad y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 9.2 pwynt canran i 38.4%. Mae'r bwlch rhwng y ddau fath o aelwyd wedi cynyddu o 2.7 pwynt canran yn 2017 i 7 pwynt canran.
- Yn gyffredinol, mae cyfranogiad mewn gweithgareddau celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu fwy ymysg plant a phobl ifanc yn ôl rhywedd wedi gostwng. Mae cyfranogiad benywod wedi gostwng 7.2
- pwynt canran ers 2017 i 41.2% ac mae cyfranogiad gwrywod wedi gostwng 7.3 pwynt canran i 41.8%.














Gwelwyd gostyngiad o ran cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn celfyddydau digidol ym mhob rhanbarth. Y De-orllewin a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu fwy (43.3%). Y canrannau cyfatebol i'r De-ddwyrain yw 42.2%, i Ganolbarth y De 40.8% ac i'r Gogledd 39.7%. Rhanbarth y De-orllewin a welodd y gostyngiad mwyaf ers 2017 sef 11.5 pwynt canran.

Mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau celfyddydau digidol ymysg siaradwyr Cymraeg wedi gostwng 0.3 pwynt canran ers 2017 i 45.9%. Mae cyfranogiad ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 7.6 pwynt canran ers 2017 i 38.9%, gan syrthio unwaith eto yn is na'r ganran ymysg y rhai sy'n siarad unrhyw faint o Gymraeg.







Gwelwyd gostyngiadau yn lefelau cyfranogiad mewn celfyddydau digidol yn yr holl grwpiau oedran ers 2017. Cymerodd pedwar ym mhob naw o blant oed 7-10 ran mewn gweithgareddau celfyddydau digidol unwaith y flwyddyn neu fwy, a hwn oedd y grŵp a welodd y cyfraddau cyfranogiad uchaf yn ôl oedran (46.5%). Cafwyd 5.6 pwynt canran o ostyngiad i 43.5% yn y cyfranogiad ymysg y grŵp oedran 11-15, a 7.7 pwynt canran o ostyngiad i 33% yn y grŵp 16-18 oed.


Cymerodd mwy na hanner (51.5%) y plant a phobl ifanc ran mewn celfyddydau digidol yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg).


Mae cyfanswm canran y plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn celfyddydau digidol a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi gostwng 4.4 pwynt canran i 41.5%. Fodd bynnag mae canran y plant a phobl ifanc a gymerodd ran mewn gweithgareddau digidol a drefnwyd gan ysgol/coleg y tu allan i oriau ysgol wedi cynyddu 4.2 pwynt canran.





## Cyfranogiad mewn gweithgareddau Ysgrifennu Creadigol

- Cymerodd tri ym mhob pump o’r plant a phobl ifanc ran mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol. Mae hwn wedi codi 0.9 pwynt canran ers 2017 i 63.1%.
- Ers 2017, mae cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol ymysg plant a phobl ifanc o aelwydydd ABC1 wedi cynyddu 3.8 pwynt canran i 67.1% ac mae cyfranogiad ymysg y rhai o aelwydydd C2DE wedi gostwng 1.4 pwynt canran i 59.9%. Mae’r bwlch o ran cyfranogiad rhwng y ddau fath o aelwyd wedi cynyddu 2 bwynt canran yn 2017 i 7.2 pwynt canran.
- Yn gyffredinol, mae cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol yn ôl rhywedd wedi cynyddu. Mae cyfranogiad benywod wedi cynyddu 0.3 pwynt canran ers 2017 i 69.3% ac mae cyfranogiad gwrywod wedi cynyddu 1.7 pwynt canran i 57.3%.














Y Gogledd a welodd y ganran uchaf o blant a phobl ifanc yn cyfranogi mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu fwy (66.4%). Y canrannau cyfatebol i'r De-orllewin yw 64.2%, i Ganolbarth y De 63% ac i'r De-ddwyrain 56.8%.

Mae cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol ymysg plant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg wedi codi 3.2 pwynt canran ers 2017 i 70.7%. Mae cyfranogiad ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg wedi gostwng 0.5 pwynt canran ers 2017 i 58.5%







Yn 2018, ymysg plant 7-10 oed y gwelwyd y cyfraddau uchaf o ran cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol unwaith y flwyddyn neu fwy yn ôl oedran (86.3%). Cafwyd 1.4 pwynt canran o gynnydd i 70.4% ymysg y rhai 11-15 oed o ran cyfranogiad mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol, a 0.2 pwynt canran o gynnydd i 26.5% ymysg y rhai 16-18 oed.

Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol a drefnwyd gan ysgol/coleg yn ystod oriau ysgol wedi cynyddu 5.2% ers 2017 i 83.2%.

Mae canran y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifennu creadigol yn eu hamser eu hunain (heb eu trefnu gan ysgol/coleg) wedi gostwng 6.8 pwynt canran ers 2017 i 13%.



## Atodiad 3: Diffiniadau o safleoedd cymdeithasol

Gellir rhannu'r boblogaeth yn chwe grŵp economaidd-gymdeithasol neu safleoedd cymdeithasol, sy'n seiliedig ar alwedigaeth y prif enillydd incwm ar yr aelwyd. Mae gan bawb yn y cartref yr un safle cymdeithasol â’r prif enillydd incwm. I gynorthwyo dadansoddi, cyfunir yn aml y tri safle cyntaf a’r tri diwethaf yn grŵp ABC1 a grŵp C2DE ac ystyrir eu bod yn cyfateb i’r dosbarthiadau canol a’r dosbarthiadau gweithiol:

**A** "y dosbarth canol uchaf "- rheolaethol, gweinyddol, proffesiynol uwch e.e. Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cwmni, Uwch Was Sifil, Meddyg, Barnwr, Bargyfreithiwr, Cyfrifydd Gweithredol

**B** "y dosbarth canol"- rheolaethol gweinyddol, proffesiynol uwch a chanolradd, e.e. Athro Ysgol Uwchradd, Llyfrgellydd, Rhaglennwr Cyfrifiadurol, Swyddog Prawf, Gweithiwr Cymdeithasol

**C1** "y dosbarth canol is "- goruchwylio, clerigol, rheolaethol is e.e. Gweithiwr Clerigol/Swyddfa, Goruchwyliwr Siop Llawr, Clerc Banc, Gwerthwr, Myfyriwr

**{ABC1au – swyddi proffesiynol, cymwys ac nad ydynt â llaw}**

**C2** "y dosbarth gweithiol medrus"-gweithwyr llaw medrus e.e. Trydanwr, Saer Coed, Diffoddwr Tân, Goruchwyliwr

**D** "y dosbarth gweithiol"-gweithwyr llaw lled-fedrus a di-grefft e.e. Gweithiwr Siop, Gweithiwr Llinell mewn Ffatri, Casglwr Sbwriel, Negesydd, Gweithiwr Bar

**E** Y rhai sy’n gwbl ddibynnol ar fudd-daliadau'r wladwriaeth, gan gynnwys pobl sy’n ddi-waith yn yr hirdymor a phensiynwyr heb bensiynau preifat; Labrwr Achlysurol

**{C2DEau – gweithwyr llaw medrus, lled-fedrus a di-grefft a phobl nad ydynt yn gweithio}**

## Atodiad 4: Holiadur Arolwg 2018

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
**Cwestiynau terfynol Omnibws y Plant 2018**

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 1 Pa mor aml ydych chi'n <u>mynd</u> i bob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?**

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Mynd i ddramâu

... Sawl gwaith yr wythnos
... Unwaith yr wythnos
...2 neu 3 gwaith y mis
... Unwaith y mis
... Unwaith bob 2 i 3 mis
...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
... Unwaith y flwyddyn
... Llai aml
... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

Mynd i sioeau cerdd
Mynd i'r opera
Mynd i gyngherddau cerddoriaeth glasurol
Mynd i gerddoriaeth fyw eraill
Mynd i berfformiadau dawns
Mynd i orielau neu arddangosfeydd celf neu grefft
Mynd i ddarlleniadau, adrodd straeon neu ddigwyddiadau llenyddol eraill
Mynd i garnifalau a chelfyddydau’r stryd

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 2 Pan aethoch chi i ddrama ddiwethaf,** (gofynnwch am bob gweithgaredd sydd wedi'i fynychu o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 1) **a oedd y digwyddiad**:

wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
wedi'i drefnu gan yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?
yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd a fynychwyd unwaith y flwyddyn neu'n amlach

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 3 A pha mor aml ydych chi'n <u>cymryd rhan</u> ym mhob un o'r gweithgareddau a ddarllenaf ichi?**

Felly, yn gyntaf, pa mor aml ydych chi'n

Cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol (megis canu neu chwarae offeryn)

... Sawl gwaith yr wythnos
... Unwaith yr wythnos
...2 neu 3 gwaith y mis
... Unwaith y mis
... Unwaith bob 2 i 3 mis
...2 neu 3 gwaith y flwyddyn
... Unwaith y flwyddyn
... Llai aml
... Byth

Ailadroddwch ar gyfer:

cymryd rhan mewn gweithgaredd drama neu theatrig (e.e. actio, cyfarwyddo, gwaith technegol)?
cymryd rhan mewn gweithgaredd dawns (heb gyfrif mynd i'r disgo/clwb nos)?
cymryd rhan mewn gwneud ffilm a fideo neu ffotograffiaeth?
cymryd rhan yn y celfyddydau gweledol neu grefftau (e.e. peintio, tecstilau)?
cymryd rhan yn y celfyddydau digidol (creu a gwneud celf gan ddefnyddio technoleg ddigidol e.e. uwchlwytho, creu neu adgymysgu cynnwys celfyddydol ar YouTube, Flickr, er enghraifft)?
cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol (e.e. barddoniaeth neu straeon)?

Dangos cerdyn
**Cwestiwn 4 Pan gymeroch chi ran ddiwethaf mewn gweithgaredd cerddorol** (gofynnwch am bob gweithgaredd y mae wedi cymryd rhan ynddo o leiaf unwaith y flwyddyn yng Nghwestiwn 3) **a oedd**:

yn yr ysgol/coleg yn ystod amser ysgol?
yn yr ysgol/coleg ond y tu allan i amser ysgol?
yn eich amser eich hun (heb ei drefnu gan yr ysgol/coleg)?

Ailadroddwch hyn am bob gweithgaredd y cymerwyd rhan ynddo unwaith y flwyddyn neu'n amlach